
Guide Dogs Cymru

Dysgwch gyda Guide Dogs

# Dinasyddiaeth Weithredol: Mynediad i Brosiectau



## Nodau

Edrych ar y broblem gymunedol a gwaith ymgyrchu ar wrthod mynediad i gŵn tywys. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o ble caniateir cŵn cymorth, gan gynnwys cŵn tywys; effaith gwrthod mynediad; a sut gall y gymuned leol wneud i berchnogion cŵn tywys deimlo bod croeso iddyn nhw, gan gynnwys gwybod sut i ymddwyn yng nghwmni cŵn gwaith.

### Amlinelliad

- I ddechrau – trafodaeth a didoli lluniau
- I ddechrau – Fideo Drysau Agored
- Gweithgaredd grŵp – gwrthod yr esgusodion
- Gweithgaredd grŵp – codi ymwybyddiaeth
- Gweithgaredd unigol – yn y gymuned
- I gloi – atgoffa a thrafod



# I ddechrau: beth yw'r broblem?

Trafodwch – beth ydych chi'n ei wybod am gŵn tywys?



Efallai y byddwch chi eisiau defnyddio rhai o'n hadnoddau dysgu eraill ni i sicrhau bod pawb yn glir ynghylch rôl ci tywys, yr hyfforddiant dwys arbennig sy'n para dwy flynedd maen nhw'n ei gael sy'n eu gwneud yn wahanol i gŵn anwes, a'r sgiliau amrywiol mae cŵn tywys yn eu defnyddio i helpu pobl sydd â cholled golwg.






**Nid dim ond i gŵn tywys mae gwrthod mynediad yn digwydd. Mae 14 aelod o Assistance Dog UK, ochr yn ochr â Guide Dogs, gan gynnwys Hearing Dogs a Medical Detection Dogs. Gofynnwch: Oes unrhyw un wedi gweld cŵn cymorth eraill heblaw cŵn tywys? Mae rhagor o wybodaeth am y cŵn yma ar gael yn www.assistancedogs.org.uk**

## Gweithgaredd



Argraffu taflen adnoddau ar gyfer pob grŵp



Gweithgaredd grŵp



Trafodaeth a threfn y grŵp

## I ble gall cŵn tywys fynd?


Dylai'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd mewn grwpiau bach i ddidoli'r lluniau o'r daflen adnoddau **'I ble gall cŵn tywys fynd?'**, gan gytuno ar y cyd ar gyfer pob lleoliad a yw hwn yn rhywle y gall cŵn tywys fynd ai peidio. Gofynnwch i'r grwpiau egluro eu penderfyniadau.



Datgelwch, yn ôl y gyfraith, ar wahân i rai eithriadau cyfyngedig iawn, y gall cŵn tywys - a chŵn cymorth eraill - fynd i unrhyw le sy'n agored i'r cyhoedd oherwydd eu bod yn hanfodol i helpu eu perchennog i fod yn annibynnol. **Fodd bynnag, mae perchnogion cŵn tywys yn dal i gael gwybod yn aml na allant fynd i le neu gael mynediad i wasanaeth oherwydd bod eu ci tywys gyda nhw.**




**Mae bron i 9 o bob 10 perchennog ci tywys wedi cael gwybod na allant fynd i le fel bwyty, tacsi neu siop, oherwydd bod eu ci tywys gyda nhw.**




Sut byddech chi'n teimlo pe baech chi'n cerdded i mewn i siop gyda'ch ffrindiau a bod gweithiwr yn y siop yn gweiddi na allech chi ddod i mewn? Yn flin? Yn ddigalon? Yn ofni mynd allan eto? Sut byddai'n effeithio ar eich penderfyniadau chi y tro nesaf?

## Clywed am brofiad real



Chwaraewch y fideo lle mae Bhavini yn rhannu ei phrofiadau o siopa gyda'i chi tywys Colin. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod profiadau Bhavini a'r ffyrdd roedd gweithwyr siop wedi ei wneud yn brofiad cadarnhaol neu negyddol iddi.

## Beth allwn ni ei wneud?

Mae Guide Dogs yn ymgyrchu yn erbyn gwrthod mynediad drwy ofyn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gryfhau'r gyfraith, ond hefyd drwy helpu'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall pwysigrwydd caniatáu mynediad i gŵn tywys, codi ymwybyddiaeth o wrthod, a darparu gwybodaeth i berchnogion busnes am sut i wneud i berchnogion cŵn tywys deimlo bod croeso iddyn nhw. Mae'r dysgwyr heddiw'n mynd i helpu'r ymgyrch drwy gwblhau gweithgareddau ar y tair agwedd olaf yma. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth gefndir am yr ymgyrch, ewch i'r ddolen yma: guidedogs.org.uk/opendoors

# Gweithgaredd 1



Argraffu taflen adnoddau ar gyfer pob grŵp


Gweithgaredd grŵp

Trafodaeth grŵp

## Gwrthod esgusodion dros wrthod mynediad

Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach a rhowch leoliad i bob grŵp o blith y canlynol: caffi, tacsi, siop ddillad, awyren, sinema a gwesty. Dylai’r grwpiau ddefnyddio’r daflen adnoddau ‘Gwrthod esgusodion dros wrthod mynediad’ fel ysgogiad i’w helpu nhw i feddwl am esgusodion y gall pob lleoliad eu rhoi am wrthod caniatáu mynediad i gi tywys ar gam.

Wedyn mae posib defnyddio’r atebion ar y daflen adnoddau i wrthod yr esgus. Wedyn mae’r grwpiau’n chwarae rôl gwrthod mynediad i’w lleoliad, gyda pherchennog y ci tywys yn dadlau’n llwyddiannus yn erbyn yr esgusodion sy’n cael eu rhoi. Gall y grŵp cyfan drafod eu hymatebion i’r chwarae rôl yma.



# Gweithgaredd 2



Gweithgaredd grŵp



Rhannu cyflwyniad




## Codi ymwybyddiaeth

**Gall y grwpiau greu cyflwyniad am y broblem o wrthod mynediad – gallai fod yn PowerPoint, taflen neu ddim ond yn sgwrs wedi'i pharatoi.**

Dylai'r cyflwyniad gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth am bwysigrwydd cŵn tywys
- y gyfraith ynghylch mynediad i gŵn cymorth i fannau cyhoeddus
- lleoliadau lle gall perchnogion cŵn tywys brofi gwrthod mynediad
- gwrthod esgusodion o Weithgaredd 1
- pam ei bod yn bwysig bod pobl eraill yn deall y problemau yma sy'n wynebu perchnogion cŵn tywys
- y peth pwysicaf maent wedi'i ddysgu am y mater yma. Pa ddarn allweddol o wybodaeth mae'r dysgwyr eisiau i eraill ei wybod am y mater hwn?

Rhannwch y cyflwyniadau yma'n rhithwir neu wyneb yn wyneb mewn gwasanaeth boreol / mewn sesiynau grwpiau ieuenctid eraill / gyda'r teulu.



# Gweithgaredd 3

Trafodaeth grŵp

Gweithgaredd unigol

Papur a beiro yr un

## Gweithredu dinesydd

**Trafodwch – sut allwn ni wella'r broblem hon ar gyfer pobl sydd â cholled golwg yn eich cymuned leol?**



Pa syniadau creadigol sydd gan y dysgwyr ar gyfer sut gallai busnesau lleol wneud i berchnogion cŵn tywys deimlo bod croeso iddyn nhw?

Atgoffwch nhw o'r pethau a rannodd Bhavini yn y fideo a wnaeth ei phrofiad siopa yn un cadarnhaol. Gall rhai awgrymiadau gynnwys poster gwybodaeth ar gyfer ystafelloedd egwyl staff neu aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig i helpu perchnogion cŵn tywys.

**Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu llythyr neu daflen i hysbysu a pherswadio perchnogion busnesau lleol am y camau y gallant eu cymryd i wella profiadau perchnogion cŵn tywys.**



# I orffen

**Trafodwch – ym mha ffyrdd eraill allwn ni helpu pobl gyda chŵn tywys pan fyddwn ni'n eu gweld nhw o gwmpas y lle?**



A ddylem ni anwesu cŵn tywys? Cynnig danteithion iddyn nhw? Er bod cŵn tywys wedi'u hyfforddi i safon uchel, cŵn ydyn nhw o hyd a dydyn nhw ddim 100% yn berffaith, felly mae'n bwysig bod pob aelod o'r gymuned yn eu cefnogi nhw i wneud eu gwaith hanfodol.

## Pum peth allweddol i'w cofio am ein hymddygiad ni o amgylch cŵn tywys:

1. Peidiwch â bwydo, anwesu na chwarae na siarad gyda chi sy'n gweithio.
2. Cadwch eich anifeiliaid anwes eich hun draw oddi wrth gi tywys.
3. Ildiwch i bartneriaeth cŵn tywys a gadael iddyn nhw gael digon o le.
4. Peidiwch ag ymyrryd â pherchennog y ci tywys wrth iddo roi gorchmynion.
5. Siaradwch â pherchennog y ci tywys ac nid y ci tywys.








**Fe allwch chi adnabod ci tywys cymwys gan ei fod yn gwisgo harnais gwyn, mae cŵn dan hyfforddiant yn gwisgo harnais brown ac mae ein cŵn bach ni'n gwisgo côt las. Mae pob un yn cynnwys ein logo ni. Er hynny, dydi pob ci cymorth ddim yn gwisgo harnais a does dim rhaid i'w perchnogion nhw gario cerdyn adnabod.**







The Guide Dogs for the Blind Association is a company limited by guarantee and a registered charity in England and Wales (209617), Scotland (SC038979) and Isle of Man (1334). B312m 02/25

## I ble gall cŵn tywys fynd?

Fedr cŵn tywys fynd i'r lleoedd yma? Fel grŵp, trefnwch nhw'n ddau bentwr – ie neu na.

Pam ydych chi wedi penderfynu bod cŵn tywys yn gallu neu ddim yn gallu mynd i'r lleoliad hwnnw?






























# Gwrthod esgusodion dros wrthod mynediad

1. **Darllenwch** yr esgusodion y gall eich lleoliad eu rhoi am wrthod gadael i gi tywys ddod i mewn ar gam. Meddyliwch am ddau esgus arall y gallech eu rhoi.
2. **Ewch ati i wrthod** yr esgusodion yma drwy ddefnyddio'r datrysiad cywir o'r bocsys datrysiadau!
3. **Ewch ati i chwarae rôl** pan fydd ci tywys yn cael ei droi o'ch lleoliad - dylai staff y lleoliad ddefnyddio'r esgusodion a dylai perchennog y ci tywys a'i ffrindiau wrthod yr esgusodion hyn yn llwyddiannus. Cofiwch ei bod yn erbyn y gyfraith i wrthod mynediad; gall perchnogion cŵn tywys fynd â busnesau i'r llys.

## Esgusodion i'w gwrthod

### Sinema

"Efallai y bydd y ci yn cyfarth ac yn difetha'r ffilm."

"Mae'n swnllyd iawn yma a dydyn ni ddim eisiau i'r ci tywys fod yn ofnus."

### Awyren

"Mae gan y cwmni hedfan bolisi 'dim anifeiliaid anwes' llym."

"Gallai eich ci chi fod yn sâl"

### Caffi

"Bydd y ci tywys yn erfyn am fwyd pawb."

"Bydd y ci tywys yn dringo ar y cadeiriau ac yn gadael blew arnyn nhw."

### Gwesty

"Byddwn yn gadael i'ch ci tywys chi ddod i mewn, ond bydd raid i ni godi mwy arnoch chi am yr holl lanhau ychwanegol y bydd raid i ni ei wneud."

"Dydi rhai pobl ddim yn hoffi cŵn mawr felly cadwch ef yn ein hardal ni sy'n croesawu anifeiliaid anwes."

### Tacsi

"Gofod bach ydi hwn ac mae gen i ofn cŵn."

"Mae'n fudr a bydd yn gwneud sedd fy nghar i'n fudr i bawb. Mae gennym ni gar arbennig ar gyfer cŵn tywys – fe fydd yma ymhen awr."

### Siop ddillad

"Does gennym ni ddim lle i gi anwes."

"Dydi'r ci yna ddim yn edrych fel y cŵn tywys Labrador melyn rydw i wedi'u gweld ar y teledu, a does gennych chi ddim cerdyn adnabod."

# Datrysiadau

Mae cŵn tywys yn cael eu hyfforddi i eistedd wrth draed eu perchennog neu o dan eu coesau, y bwrdd neu'r gadair.

Mae'n rhaid i berchnogion cŵn tywys gynnal safonau hynod uchel wrth ofalu am eu cŵn.

Dydych chi ddim yn cael ychwanegu costau am gi tywys na'i gyfyngu i ardaloedd.

Mae cŵn tywys wedi cael eu hyfforddi i safon uchel iawn ac ers bod yn gŵn bach, maen nhw wedi cael eu cyflwyno i bob math o amgylcheddau a synau.

Mae yn erbyn y gyfraith i wrthod mynediad i gi tywys dim ond oherwydd nad ydych chi'n hoffi cŵn neu'n eu hofni nhw.

Mae cŵn tywys yn cael eu hyfforddi i beidio â dringo ar ddodrefn ac i beidio â swnian ar bobl eraill.

Dydi pob ci tywys ddim yn Labrador. Mae rhai yn gallu bod yn German Shepherds, Golden Retrievers neu Labradoodles. Does dim rhaid i berchnogion cŵn tywys gario cerdyn adnabod gyda nhw.

Nid anifeiliaid anwes yw cŵn tywys. Maen nhw'n gweithio i gefnogi pobl ag anableddau a gallant fod yn hanfodol iddyn nhw fod yn annibynnol.

Mae milfeddygon yn archwilio cŵn tywys yn rheolaidd.